COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR SWYDDFEYDD DINESIG Y CYNGOR, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB /YN RHITHIOL DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Cynghorydd W J Kendall – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | S J Bletsoe | JPD Blundell |
| E L P Caparros | N Clarke | HJ David | P Davies |
| N Farr | J Gebbie | W R Goode | D T Harrison |
| P W Jenkins | M R John | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick | G Walter |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | E D Winstanley | T Wood | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | A R Berrow | RJ Collins | C Davies |
| C L C Davies | S Easterbrook | M J Evans | P Ford |
| RM Granville | S J Griffiths | M L Hughes | D M Hughes |
| RM James | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | I M Spiller |
| T Thomas | MJ Williams | R Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddio |
| Oscar Roberts | Swyddog Cabinet a Phwyllgor |

## 2. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:-<br><br>Y Cynghorydd P Davies – datganiad personol yn Eitem 7 ar yr agenda<br><br>Y Cynghorydd S Bletsoe – datganiad personol yn Eitem 7 ar yr agenda<br><br>Y Cynghorydd JC Spanswick – diddordeb rhagfarnol yn Eitem 7 ar yr Agenda, gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor<br><br>Y Cynghorydd RM James – diddordeb rhagfarnol yn Eitem 7 ar yr agenda, gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor<br><br>Cynghorydd E Winstanley – diddordeb rhagfarnol yn Eitem 8 yr Agenda (ail gwestiwn) fel aelod o sefydliad sydd wedi protestio yn erbyn y carthion ar draeth Newton, y cyfeirir ato yn y cwestiwn. Roedd y Cynghorydd Winstanley hefyd wedi mynd ar drywydd hyn gyda sylwadau ysgrifenedig drwy'r sianeli priodol.<br><br>Fe wnaeth yr holl Aelodau uchod wnaeth ddatgan buddiant rhagfarnol adael y cyfarfod tra bod yr eitemau yr oeddent wedi datgan diddordeb ynddynt yn cael eu hystyried. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

## 3. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion canlynol cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cymeradwyo fel cofnodion cywir a gwir:-<br><br>18 Hydref 2023<br>22 Tachwedd 2023<br><br>Cadarnhaodd y Cynghorydd N Clarke fod cofnodion 22 Tachwedd uchod, yn adlewyrchu ei bod wedi mynychu'r cyfarfod o bell. Fodd bynnag, mewn gwirionedd roedd hi wedi mynychu'r cyfarfod hwn yn bersonol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

**4. Cyflwyniad i'r Cyngor gan y Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn cyflwyno Mr Huw Jakeway a chydweithwyr o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar waith diweddaraf y Gwasanaeth.<br><br>Dywedodd y Swyddogion fod GTADC yn cwmpasu'r Fwrdeistref Sirol ganlynol a oedd yn cynnwys nifer amrywiol o sefydliadau Tân ac Achub ym mhob un o'r lleoliadau hyn:-<br><br>• Pen-y-bont ar Ogwr<br>• Rhondda Cynon Taf<br>• Bro Morgannwg<br>• Caerffili<br>• Merthyr Tudful<br>• Blaenau Gwent<br>• Torfaen<br>• Trefynwy<br>• Caerdydd |

| | |
|---|---|
| | • Casnewydd<br><br>Cadarnhawyd bod pob un o'r Awdurdodau cyfansoddol wedi ymrwymo cyllideb tuag at weithrediad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a oedd yn cyfateb i boblogaeth pob un o'r ardaloedd. Cefnogwyd y Gwasanaeth yn ariannol hefyd gan swm enwol o ddyraniad cyllid grant. Esboniodd bod canran fawr o'r gyllideb hon yn mynd i weithwyr, ond roedd hyn hefyd yn cynnwys adnoddau ar gyfer pethau fel Trafnidiaeth, Cyflenwadau, Hyfforddiant, Adeiladau, Pensiynau a Chyllid Cyfalaf.<br><br>O ran Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth a'r rhagolwg cyllidebol, rhannodd GTADC wybodaeth gydag Aelodau ar sut y dyrannwyd cyllid i'r GTADC gan y deg Awdurdod dan sylw a sut roedd ei gyllideb, gan gynnwys gan yr awdurdodau lleol, yn cael ei dyrannu i'r gwahanol wasanaethau mae'n eu cefnogi, er enghraifft ar gyfer eu hadeiladau, hyfforddiant, gweithwyr a fflyd cludiant, h.y. ayyb. Fe wnaeth sleid ddangos y gyllideb ar gyfer y flwyddyn bresennol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol mor bell yn ôl i 2009-10. Pwysleisiwyd bod pwysau cyllidebol a chwyddiant yr oedd GTADC yn eu hwynebu, yn debyg i'r hyn roedd sefydliadau mawr eraill yn eu hwynebu yn yr hinsawdd bresennol.<br><br>Yna, rhannodd Mr Jakeway y nifer o wahanol wasanaethau mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn eu cefnogi, a oedd yn cynnwys diffodd tanau gwyllt ac achub mewn llifogydd, cefnogi cydweithwyr y GIG, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac achub anifeiliaid mawr. Ychwanegodd bod y Gwasanaeth hefyd wedi chwarae rhan fawr mewn cymorth diogelwch cymunedol, mewn digwyddiadau lle mae tân yn cael ei ddefnyddio i anafu neu ladd yn fwriadol.<br><br>Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd estyn allan i ysgolion, er mwyn addysgu pobl ifanc am y peryglon sy'n gysylltiedig â thân.<br><br>Dywedodd fod y Gwasanaeth yn cynnal nifer sylweddol o wiriadau diogelwch yn y cartref bob blwyddyn, a oedd yn cynnwys Asesiadau Risg Tân ac yn cynnwys gosod offer caledwedd mewn cartrefi, yn ogystal â rhoi cyngor i berchnogion tai ac ati, ynghylch mesurau diogelwch trydanol y dylai preswylwyr fod yn ymwybodol ohonynt.<br><br>Roedd gan y Gwasanaeth hefyd gysylltiad gweithredol â sefydliadau partner mewn perthynas â Cham-drin Rhywiol, Cam-drin Domestig a Masnachu Pobl, a oedd yn cynnwys llwybrau cyfeirio at atgyfeiriadau.<br><br>Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd edrych yn weithredol ar faterion cladin, yn enwedig mewn unrhyw adeiladau uchel, er mwyn gwirio eu lefelau ymwrthedd diogelwch tân. |

| | |
|---|---|
| | O ran heriau'r dyfodol y gwnaeth y Gwasanaeth eu hwynebu, cadarnhaodd mai rhai o'r prif rai oedd:-<br><br>• Yr Argyfwng Costau Byw ac effeithiau hyn;<br>• Llywodraethu a Diwygio Cyllid;<br>• Uchelgais Llywodraeth Cymru;<br>• Heriau Newid yn yr Hinsawdd;<br>• Heneiddio a Newid yn y Boblogaeth;<br>• Canlyniad Adolygiad Diwylliant Annibynnol;<br>• Cysylltiadau Diwydiannol; a'r<br>• Amgylchedd Adeiledig ar ôl trychineb Grenfell<br><br>Pwysleisiodd Mr Jakeway fod dulliau o atal ac addysgu'r cyhoedd ar faterion diogelwch tân yn cael eu hystyried yn hynod bwysig gan GTADC a gwnaed ymrwymiad ariannol tuag at hyn gan y gwasanaeth. Talodd deyrnged bellach i ochr weithredol y gwasanaeth, a oedd yn aml yn anweledig o'i gymharu â'r adran diffodd tân. Ychwanegodd mai'r Ystafell Reoli yn bennaf oedd y man lle roedd digwyddiadau'n cael eu riportio am y tro cyntaf a'i fod yn gysylltiedig â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft yr Heddlu.<br><br>Yna gwahoddwyd aelodau gan y Maer i ofyn unrhyw gwestiynau i gynrychiolwyr GTADC.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn cydnabod y gwaith anhygoel sy'n aml yn achub bywydau mae gwasanaeth GTADC yn ei wneud ar draws y Fwrdeistref Sirol ac yn ehangach a'r gwaith ymyrryd ac atal maen nhw hefyd yn ei wneud er mwyn cynorthwyo i addysgu'r cyhoedd. Ychwanegodd ei fod wedi siarad ag Arweinwyr Grŵp eraill y Cyngor yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Diwylliannol Annibynnol i'r gwasanaeth ac ynghyd â holl Arweinwyr eraill yr Awdurdodau lleol cyfansoddol, roedd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y GTADC yn gofyn am sicrwydd bod yr holl 82 argymhelliad a gynigiwyd o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu derbyn a'u rhoi ar waith yn llawn. Byddai hyn yn ei dro yn sicrhau bod y newidiadau ymddygiadol sylweddol sydd eu hangen yn y gweithlu yn cael eu rhoi ar waith ac yn wir mae wedi bod yn amlwg eisoes bod gwelliannau wedi digwydd. Nid oedd lle mewn unrhyw weithlu ar gyfer achosion o wahaniaethu, aflonyddu rhywiol, casineb at fenywod, bwlio neu faterion cysylltiedig eraill a amlygwyd yn yr adolygiad. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod hefyd yn falch o nodi, y byddai'r argymhellion yn cael eu monitro ac yn destun proses graffu pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn dod â mwy o ymddiriedaeth a hyder yn GTADC a'i gymdeithion.<br><br>Roedd yr aelodau hefyd yn falch o nodi bod y Cynllun Gweithredu wedi'i rannu â staff GTADC. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Prif Weithredwr a'r cyflwyniad a wnaed gan Mr. Jakeway a'i gydweithwyr GTADC. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

**5. I dderbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y pwysigion canlynol (ni wnaed unrhyw benderfyniadau):-<br>• Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd<br>• Aelod Cabinet – Addysg<br>• Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd<br>• Aelod Cabinet – Diogelu Cymunedol a Lles<br>• Aelod Cabinet – Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol<br>• Aelod Cabinet – Tai, Cynllunio ac Adfywio<br>• Prif Weithredwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

**6. I dderbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniodd y Cyngor gyhoeddiadau'r Arweinydd (ni wnaed unrhyw benderfyniad) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

## 7. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fe wnaeth y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid gyflwyno adroddiad a oedd yn amlinellu'r gofyniad i'r Cyngor fabwysiadu cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2024-25 erbyn 31 Ionawr 2024. Pe na bai'r Cyngor yn mabwysiadu ei gynllun ei hun erbyn 31 Ionawr 2024, yna byddai cynllun sy'n cael ei gymhwyso gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi ar waith yn awtomatig.<br><br>Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth hanfodol i'r rhai ar incwm isel sydd ag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.<br><br>Mae rheoliadau diwygio wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru sy'n uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddir yn y cynlluniau CTR a gwneud diwygiadau i'r canlynol:<br><br>• diystyru ôl-daliad Lwfans Rhieni Gweddw (WPA) o gyfrifiad cyfalaf ymgeisydd ac, am gyfnod o 12 mis, diystyru Taliad Cymorth mewn Profedigaeth ôl-weithredol (BSP).<br>• diystyru unrhyw iawndal neu daliad cymorth a dderbyniwyd o gyfrifiad cyfalaf ymgeisydd ar gyfer taliadau Iawndal Swyddfa'r Post (a wnaed mewn cysylltiad â methiannau system Horizon Swyddfa'r Post), y cynllun Talu Niwed drwy Frechiad a'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig.<br>• gwneud mân ddiwygiadau technegol i Reoliadau CTR 2013 i alinio darpariaethau yng Nghymru gyda Lloegr a darpariaethau budd-dal tai.<br>• adlewyrchu newidiadau i'r dirwedd ddeddfwriaethol o ganlyniad i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.<br><br>Mae cynllun 2024-25 yn cynnal y lefel uchaf o gymorth ar 100% i hawlwyr cymwys.<br><br>Amcangyfrifir bod cost y cynllun CTR ar gyfer 2024-25 yn £16.5m, sy'n cynnwys cost diystyru pensiynau rhyfel yn llawn wrth gyfrifo hawl CTR (amcangyfrifir fod hyn yn £4,127).<br><br>Nododd y Cyngor fod 12.435 o aelwydydd yn derbyn gostyngiad y Dreth Gyngor eleni, a oedd yn ostyngiad bach ar ffigyrau'r llynedd.<br><br>Nododd ymhellach yn dilyn cyngor gan y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod 9,658 o aelwydydd yn derbyn cyfradd gostyngiad o 100%.<br><br>Gofynnodd Aelod a oedd Asesiad o Effaith wedi'i gynnal gan naill ai BCBC neu Lywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | ynghylch lefel y Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau lleol ar yr effaith y bydd yn ei chael ar yr hyn sydd ei angen i barhau â'r Cynllun Gostyngiad.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid mai Llywodraeth Cymru oedd wedi gwneud hyn pan oedd y rheoliadau wedi eu drafftio. Ychwanegodd y dylid nodi o'r adroddiad, bod y cyllid a dderbyniwyd fel rhan o'r setliad wedi bod yr un fath ers blynyddoedd lawer ac roedd hyn gyfystyr â £244m, ond roedd hyn ar sail Cymru Gyfan (nid ar gyfer BCBC yn unig).<br><br>Ychwanegodd fod BCBC wedi gwella'r cyllid fel rhan o'i gyllideb at y diben uchod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er mwyn cefnogi lefel y preswylwyr oedd yn gymwys am Ostyngiad y Dreth Gyngor o dan y cynllun yn llawn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Cyngor yr adroddiad a mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2024-2025 fel y nodir ym mharagraffau 3.15 i 3.20 o'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

**8. I dderbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Y Cynghorydd E Caparros i'r Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd (ymateb wedi'i rannu ag aelodau ynghynt)<br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Caparros<br>2. Y Cynghorydd I Williams i'r Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd (ymateb wedi'i rannu ag aelodau ynghynt)<br>Gofynnwyd cwestiynau atodol gan y Cynghorydd I Williams a'r Cynghorydd M Williams |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

## 9. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Ionawr 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon